OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1432 (Cy.143)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

NEWIDIADAU I ARDALOEDD LLYWODRAETH LEOL

Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) (Diwygio) 2002

Wedi'i wneud	- -	*29 Ebrill 2002*
Yn dod i rym	- -	*1 Mai 2002*

Gan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**), wedi gwneud Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) 2002;

mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn gwneud y Gorchymyn canlynol er mwyn gwneud newidiadau i ddarpariaethau penodol yn y gorchymyn blaenorol hwnnw ynglŷn â dyddiad dileu cymuned Cynffig a dyddiad cynnal etholiadau ar gyfer cynghorau cymuned newydd Corneli a'r Pîl.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) (Diwygio) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mai 2002.

Diwygio Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) 2002

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) 2002 fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2, yn lle "2 Mai" rhowch "20 Mehefin".

(3) Ym mharagraff (1) o Erthygl 4, yn lle "6 Mai" rhowch "24 Mehefin".

(**1**) 1972 p.70.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).